OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 1157 (Cy.74)

DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

Rheoliadau Gwerthoedd Terfyn Ansawdd Aer (Cymru) (Diwygio) 2005

Wedi'u gwneud - -	*12 Ebrill 2005*
Yn dod i rym - -	*30 Ebrill 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 29 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**) ac is-adran (2) o adran 2 o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**), ac yntau wedi'i ddynodi(**3**) at ddibenion yr is-adran honno o ran mesurau sy'n ymwneud ag asesu a rheoli ansawdd aer amgylchynol a chydymffurfio â gwerthoedd terfyn, gwerthoedd targed ac amcanion ansawdd aer, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwerthoedd Terfyn Ansawdd Aer (Cymru) (Diwygio) 2005 a deuant i rym ar 30 Ebrill 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diffiniad

2. Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 2002" ("*the 2002 Regulations*") yw Rheoliadau Gwerthoedd Terfyn Ansawdd Aer (Cymru) 2002(**4**).

Diwygiadau i Reoliadau 2002: cyfranogiad y cyhoedd

3.—(1) Yn rheoliad 2 o Reoliadau 2002, mewnosoder y diffiniad canlynol yn y lle priodol:

"ystyr "y cyhoedd" yw person neu bersonau naturiol neu gyfreithiol, gan gynnwys cyrff gofal iechyd a chyrff sydd â buddiant yn ansawdd yr aer amgylchynol ac sy'n cynrychioli buddiannau poblogaethau sensitif, defnyddwyr a'r amgylchedd ond heb eu cyfyngu i'r cyrff hynny;".

(2) Yn rheoliad 10 o Reoliadau 2002, mewnosoder ar ôl paragraff (11)—

(**1**) 1998 p.38.
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) *Gweler* Erthygl 2 o Orchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 3) 2000, O.S. 2000/2812.
(**4**) O.S. 2002/3183 (Cy.299).